OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1382 (Cy. 245)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU
# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

*Gwnaed - - - - am 6:00 p.m. ar 22 Hydref 2019*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

(a) mewn perthynas â Rhan 1, y pwerau a grybwyllir ym mharagraffau (b) ac (c);

(b) mewn perthynas â Rhan 2, adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**);

(c) mewn perthynas â Rhan 3, paragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â'r polisi amaethyddol cyffredin(**3**).

Mae'r gofyniad ym mharagraff 4(a) o Atodlen 2 (sy'n ymwneud ag ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol) i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wedi ei fodloni.

Yn unol ag adran 59(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**4**) a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**1**) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7). Mae wedi ei diddymu yn rhagolygol gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) o'r diwrnod ymadael (gweler y diffiniad o "exit day" yn adran 20 o'r Ddeddf honno).

(**2**) 2018 p. 16.

(**3**) O.S. 2010/2690.

(**4**) 2006 p. 32. Diwygiwyd adran 59(3) gan adran 20(2)(c) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

# RHAN 1

## Cyflwyniad

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym fel a ganlyn—

(a) o ran y Rhan hon a Rhan 2, drannoeth y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn;

(b) o ran Rhan 3, yn union cyn y diwrnod ymadael.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

# RHAN 2

## Marchnata hadau a deunyddiau lluosogi planhigion: diwygio deddfwriaeth ddomestig

**Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017**

**2.** Yn Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017(**5**), yn rheoliad 5, yn lle paragraffau (3) a (4) rhodder—

> "(3) Caiff Gweinidogion Cymru awdurdodi marchnata deunyddiau planhigion o unrhyw wlad y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd os ydynt wedi eu bodloni bod y deunyddiau planhigion wedi eu cynhyrchu o dan amodau sy'n cyfateb i'r gofynion yn y Rheoliadau hyn ar gyfer deunyddiau planhigion."

# RHAN 3

## Marchnata hadau a deunyddiau lluosogi planhigion: diwygio deddfwriaeth ddomestig o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd

**Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**6**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5(4), yn lle'r geiriau cyn y testun a fewnosodir, rhodder—

"Yn rheoliad 5—

(a) ym mharagraff (3), yn lle "Undeb Ewropeaidd" rhodder "Deyrnas Unedig";

(b) ar y diwedd mewnosoder—".

(**5**) O.S. 2017/691 (Cy. 163), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**6**) O.S. 2019/368 (Cy. 90).

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Am 6:00 p.m. ar 22 Hydref 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017 i alluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi marchnata planhigion ffrwythau a deunyddiau lluosogi sy'n dod o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd o dan amgylchiadau penodol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 i sicrhau bod y diwygiad a wnaed gan reoliad 2 yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.